

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r Lleoliad: Ysbyty Bryn y Neuadd –
Uned Carreg Fawr

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 05 Tachwedd 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Uned Carreg Fawr yn Ysbyty Bryn y Neuadd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Carreg Fawr yn Uned Adsefydlu Iechyd Meddwl ag wyth gwely, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ar 29 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwnaethom adolygu polisiau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd cynllun COVID-19 penodol i'r uned wedi cael ei ddatblygu, yn nodi'r prif heriau a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth er mwyn cefnogi staff i gynnal amgylchedd diogel iddyn nhw eu hunain ac i gleifion yn ystod y pandemig.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod gan yr uned gyflenwad da o gyfarpar PPE a bod stoc leol ar gael ar safle'r prif ysbyty. Yn ogystal, mae rheolwr y ward yn cynnal gwiriad stoc dyddiol ar gyfer yr uned, er mwyn monitro'r cyfarpar sydd ar gael.

Er mwyn i'r staff wisgo'r cyfarpar PPE gofynnol yn ddiogel, dywedodd rheolwr y ward wrthym fod ystafell 'gwisgo a diosg' wedi'i sefydlu yn yr uned. Hefyd, roedd gorsaf PPE ddynodedig wedi'i sefydlu wrth y brif fynedfa. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i'r staff wisgo masg wyneb llawfeddygol ar unwaith wrth iddynt ddod i mewn i'r uned, a mynd yn syth i'r ystafell staff i newid i wisg lân cyn mynd i mewn i ardal y ward.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar PPE a bod posteri hefyd yn cael eu harddangos ym mhob ardal berthnasol o'r uned. Wrth fynedfa'r uned, mae llyfr i ymwelwyr ei lofnodi y gellid ei ddefnyddio fel rhan o gynllun monitro ac olrhain y llywodraeth, pe bai angen.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod sgrymiau diogelwch dyddiol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn cael diweddariadau rheolaidd ar y canllawiau perthnasol ac i drafod newidiadau gofynnol i'r gofal a ddarperir. Cynhelir trafodaethau diweddarau dyddiol â'r cleifion hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r canllawiau a'r cyfyngiadau diweddaraf. Mae'r trafodaethau hyn yn rhoi cyfle i'r staff a'r cleifion godi unrhyw ymholiadau, pryderon ac awgrymiadau o ran y trefniadau sydd ar waith.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Amlinellodd rheolwr y ward rai o'r newidiadau a roddwyd ar waith yn yr uned o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'r newidiadau hyn wedi cynnwys aildrefnu rhai o ardaloedd allweddol yr uned, gan gynnwys yr ystafell a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd rowndiau'r ward cleifion a'r ardal yn yr uned lle mae'r cleifion yn bwyta eu prydau. Drwy aildrefnu'r ystafelloedd hyn, mae mwy o le wedi'i greu, sydd wedi galluogi unigolion i gadw pellter cymdeithasol.

Mae asesiad cadw pellter cymdeithasol a chynllun rheoli COVID-19 penodol ar gyfer yr uned wedi cael eu datblygu. Mae'r cynllun yn nodi'r angen i leihau'r traffig yng nghoridorau'r uned cymaint â phosibl i'r staff a'r cleifion. Rhaid peidio â chynnal sgysiau anffurfiol yn y coridor, er mwyn lleihau'r risg o ledw heintiau.

Mae cynllun rheoli COVID-19 yn nodi bod yn rhaid i unrhyw fynediad i'r uned, gan gynnwys gan staff clinigol, gael ei drefnu ymlaen llaw. Rhaid i ymwelwyr wisgo masgiau wyneb, sydd ar gael yn yr orsaf PPE wrth y brif fynedfa, yn ogystal â llofnodi'r llyfr wrth ddod i mewn. Caiff mynediad i'r uned ei reoli gan glicied ar ochr fewnol drws y brif fynedfa. Bydd hyn yn sicrhau na fydd pobl yn dod i mewn i'r uned heb drefnu ymlaen llaw.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod ymweliadau wedi cael eu hatal yn gyfan gwbl i ddechrau, pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth. Roedd y cleifion yn gallu cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau dros y ffôn neu drwy ddulliau rhithwir, gan ddefnyddio offer yn yr uned. Cafodd ymweliadau â chleifion eu hailgyflwyno wedyn, gyda chyfyngiadau. Mae ystafell ar gael yn yr uned ar gyfer ymweliadau â chleifion wedi'u trefnu ymlaen llaw. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid cynnal asesiad risg cyn unrhyw ymweliad. Hefyd, mae'n rhaid i fasiau wyneb gael eu gwisgo ac mae'n rhaid i'r ystafell gael ei glanhau ar ôl pob ymweliad.

Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod ardal eistedd yng ngardd yr uned wedi cael ei defnyddio yn ystod yr haf fel bod ymweliadau yn gallu cael eu cynnal. Cadarnhaodd rheolwr y ward fod y cleifion yn ffafrio'r opsiwn hwn ar gyfer ymweliadau. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cymeradwyo codi gasebo yn yr ardd er mwyn i'r ymweliadau hyn barhau ym

mhob tywydd. Bydd hyn yn golygu y gellir cynnal ymweliadau heb fod unigolion yn gorfod dod i mewn i'r uned.

Hefyd, yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol, ni chaniatawyd i'r cleifion gael eu rhyddhau o'r uned dros dro. Yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, cadarnhaodd rheolwr y ward fod modd i'r cleifion fynd am dro o gwmpas prif faes yr ysbyty gydag aelod o'r staff yn eu hebrwng er mwyn cael awyr iach. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion dros dro gyda goruchwyliaeth a heb oruchwyliaeth, wedi cael eu hailgyflwyno erbyn hyn gan fod yr asesiadau risg perthnasol wedi cael eu cynnal.

Eglurodd rheolwr y ward fod therapydd galwedigaethol newydd wedi dechrau gweithio yn yr uned a bod y gweithgareddau sydd ar gael i'r cleifion wedi gwella. Fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith, ar y ward roedd y gweithgareddau yn cael eu cynnal yn bennaf, gyda'r nod o helpu'r cleifion i feithrin y sgiliau perthnasol fel rhan o'r broses adsefydlu. Dywedwyd wrthym fod rhai gweithgareddau awyr agored ar gael i'r cleifion, sydd wedi cynnwys grwpiau cerdded.

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth yn nodi bod gan bob claf yn yr uned raglen adsefydlu unigol, yn seiliedig ar ei anghenion unigol. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod y cleifion yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y staff ac y gwnaed ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn cael gwybod am y canllawiau a'r cyfyngiadau diweddaraf drwy gydol cyfnod y pandemig. Cadarnhaodd rheolwr y ward fod trafodaethau dyddiol yn cael eu cynnal gyda'r cleifion, sy'n rhoi cyfle iddynt godi unrhyw bryderon neu ymholiadau sydd ganddynt am y trefniadau sydd ar waith.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym mai un o'r prif heriau i'r staff yn ystod cyfnod y pandemig fu'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar gymhelliant y cleifion. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i roi hyfforddiant i'r staff ar hyn yn y dyfodol agos. Y gobaith yw y bydd yr hyfforddiant hwn, ynghyd â'r cyfraniad ychwanegol gan therapydd galwedigaethol yr uned, yn galluogi'r gwasanaeth i wella'r sefyllfa o ran cymhelliant y cleifion, er mwyn eu helpu i wneud cynnydd o ran eu llwybrau gofal yn y dyfodol drwy ymgysylltu'n well â'u rhaglenni adsefydlu.

Roedd data ar ddigwyddiadau yn dangos y bu chwe digwyddiad yn ymwneud ag ymddygiad ymosodol / aflonyddol gan gleifion yn ystod y tri mis diwethaf. Amlinellodd rheolwr y ward y broses cofnodi digwyddiadau, lle bydd yr aelod perthnasol o'r staff yn cwblhau ac yn cyflwyno adroddiad ar y digwyddiad drwy Datix. Caiff copi o'r adroddiad hwn ei anfon wedyn at reolwr y ward ac unrhyw uwch-reolwyr perthnasol eraill. Cyfrifoldeb rheolwr y ward wedyn yw ymchwilio a sicrhau y cytunir ar gynllun gweithredu, a'i roi ar waith.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod rhestrau gwirio pwyntiau clymu ar waith yn yr uned, a'u bod yn cael eu hadolygu bob wythnos. Mae asesiad risg pwyntiau clymu ar gael hefyd.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Fel y nodwyd eisoes, gwelsom dystiolaeth fod cynllun rheoli COVID-19 wedi cael ei ddatblygu. Diben y ddogfen hon yw cefnogi'r staff i gynnal amgylchedd diogel iddyn nhw eu hunain ac i'r grŵp cleifion yn ystod y pandemig. Darparwyd asesiad risg COVID-19 hefyd, a oedd yn dogfennu'r prif risgiau ym marn y gwasanaeth a'r mesurau rheoli presennol sydd ar waith yn yr uned.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod y bwrdd iechyd wedi darparu diweddariadau rheolaidd ar ganllawiau a newidiadau gofynnol i'r gwasanaeth a ddarperir i bob aelod o'r staff drwy gydol y pandemig. Dywedwyd wrthym fod sgrymiau diogelwch dyddiol yn cael eu cynnal gyda'r staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau ac i roi'r cyfle iddynt godi unrhyw ymholiadau neu awgrymiadau.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod trafodaethau dyddiol yn cael eu cynnal â'r cleifion am y canllawiau a'r cyfyngiadau sydd ar waith. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod posteri atal a rheoli heintiau yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r uned er mwyn atgoffa unigolion am bwysigrwydd dilyn y canllawiau sydd ar waith, er enghraifft o ran golchi dwylo. Dywedwyd wrthym fod tri glanweithiwr dwylo wedi'u gosod ar y wal yn yr uned, fel bod y staff a'r cleifion yn gallu glanhau eu dwylo'n rheolaidd.

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn cadarnhau bod gan bob claf asesiad risg unigol a gytunwyd gan y tîm amlddisgyblaethol, sy'n cyfateb i'w dealltwriaeth o COVID-19 a'r risgiau cysylltiedig a'r cyfyngiadau gofynnol.

Roedd yn ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau gorfodol fel rhan o'u rolau. Dangosodd dystiolaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth fod lefelau cydymffufiaeth y staff ar gyfer yr hyfforddiant hwn ar adeg ein hadolygiad yn 87 y cant. Hefyd, dywedodd rheolwr y ward wrthym fod pob aelod o'r staff yn gorfod cwblhau model

e-ddysgu penodol ar COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod system ar waith ar gyfer ymateb pe bai unrhyw glaf yn datblygu symptomau COVID-19. Mae dwy ystafell wely en-suite yn yr uned, sydd wedi'u dynodi'n ystafelloedd 'Coch'. Bydd yr ystafelloedd hyn yn cael eu defnyddio i drin unrhyw gleifion symptomatig neu gleifion sydd wedi cael prawf positif, yn ôl yr angen. Cadarnhaodd rheolwr y ward mai nod y trefniant hwn yw sicrhau y gall y claf dan sylw gael ei ynysu a'i drin. Dim ond am resymau hanfodol y bydd y staff yn mynd i mewn i'r ystafell wely, er enghraifft er mwyn rhoi meddyginiaeth a phrydau bwyd, a hynny gan wisgo'r cyfarpar PPE gofynnol.

Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth yn dangos bod amserlen lanhau benodol i'r uned wedi datblygu, mewn cydweithrediad â'r staff domestig, er mwyn sicrhau bod ardaloedd o'r ward lle ceir 'llawer o draffig' yn cael eu glanhau'n briodol bob dydd. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i sicrhau, pe byddai un o'r ystafelloedd 'Coch' yn cael ei defnyddio i drin claf symptomatig, y byddai'r ystafell yn cael ei glanhau'n drylwyr cyn y gellid defnyddio'r ystafell eto.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Wrth adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y gwasanaeth, gwelwyd bod dyddiadau adolygu tri o bolisiau'r bwrdd iechyd sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau, wedi mynd heibio ers amser sylweddol. Yn ystod trafodaeth â rheolwr y ward, nid oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gael am statws yr adolygiadau polisi. O ganlyniad, yn sgil y drafodaeth â rheolwr y ward, gofynnodd AGIC am sicrwydd ychwanegol gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â'r materion a nodwyd. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd wedi hynny fod cynnwys y dogfennau polisi yn addas at ei ddiben a'i fod yn cefnogi'r canllawiau cenedlethol o ran pandemig COVID-19. Cadarnhaodd ymateb cychwynnol y bwrdd iechyd hefyd fod y polisiau dan sylw wedi cael eu hadolygu a'u bod yn aros i gael eu cymeradwyo gan yr Is-grŵp Atal Heintiau a drefnir ar gyfer 13 Hydref 2020. Mae diweddariad pellach gan y bwrdd iechyd ar statws y polisiau hyn i'w weld yn yr ymateb i'r cynllun gwella ar dudalen 11.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn disgrifio'r trefniadau a oedd ar waith i fonitro lefelau staffio yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod niferoedd priodol ar gael i ymdrin â'r risgiau ar hyn o bryd ac i fodloni'r lefelau gofynnol o ran arsylwi ar gleifion yn yr uned. Cadarnhaodd rheolwr y ward ei fod o'r farn bod lefelau staffio'r ward yn ddigonol ac yn ddiogel. Dywedwyd wrthym hefyd fod cylluniau wrth gefn ar waith i ymateb i unrhyw brinder staff yn yr uned. Dywedwyd wrthym fod y ffaith bod angen i bum aelod o'r staff warchod wedi effeithio ar y lefelau staffio. Yn ystod y cyfnod hwn, bu modd i'r uned fenthyl staff o wardiau eraill ac roedd staff banc ar gael er mwyn sicrhau lefelau staffio digonol.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod cyfarfodydd rowndiau ward wythnosol y tîm amlddisgyblaethol wedi parhau drwy gydol y pandemig, gyda phob claf yn cael ei adolygu bob yn ail wythnos. Dywedwyd wrthym nad yw'r pandemig wedi effeithio ar gyfraniad y meddygon ymgynghorol ac, yn ogystal â'r mewnbwn a geir fel rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, fod cyngor clinigol ad-hoc ar gael yn ôl yr angen.

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn nodi bod adolygiad gwasanaeth o fodel adsefydlu'r bwrdd iechyd wedi cael ei gynnal yn ystod y pandemig. Yn sgil hyn, roedd mwy o fewnbwn seicolegol ar gael i gefnogi'r staff a'r cleifion yn yr uned. O ganlyniad, mae gan yr uned bellach dîm amlddisgyblaethol llawn yn cynnwys Nyrsys Iechyd Meddwl, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, Therapydd Galwedigaethol, Seicolegydd, Seiciatrydd Ymgynghorol a Nyrsys Iechyd Meddwl Cymunedol. Fel rhan o drafodaethau'r tîm amlddisgyblaethol, caiff rhaglenni adsefydlu'r cleifion eu hadolygu'n rheolaidd, gan fod cleifion bellach yn cael eu rhyddhau dros dro eto.

Dywedwyd wrthym nad yw'r pandemig wedi effeithio ar amllder y Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar ffurf cynhadledd ffôn ar hyn o bryd. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod cleifion yr uned wedi gallu cael gafael ar gymorth eiriolaeth a siarad â'u cyfreithwyr yn ôl yr angen. Fodd bynnag, mae'r cyswllt hwn yn digwydd dros y ffôn.

Darparwyd data ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol, a ddangosodd fod y lefel o gydymffurfiaeth yn 94 y cant. Roedd rheolwr y ward o'r farn bod yr hyfforddiant sydd ar gael i'r staff yn dda. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd eisoes, o ystyried y problemau a gafwyd mewn perthynas â chymhelliant y cleifion o ganlyniad i'r cyfyngiadau, dywedwyd wrthym fod hyfforddiant staff yn y maes hwn yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth.

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod y staff yn dal i allu cael gafael ar gymorth digidol yn ôl yr angen, drwy strwythurau cymorth cefnogol i gyflogeion y bwrdd iechyd, a oedd yn cynnwys Iechyd Galwedigaethol. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaethau cymorth sydd ar gael a'u gwybodaeth gyswllt yn cael eu rhannu â'r staff yn rheolaidd. Yn ogystal, fel y nodwyd eisoes, roedd staff yr uned bellach yn gallu cael gafael ar gymorth seicolegol, y gellir ei geisio drwy ei reolwr llinell neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Seicolegydd.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cyflwynodd y gwasanaeth bolisi Uwchgyfeirio Gwelyau Iechyd Meddwl y bwrdd iechyd fel tystiolaeth. Ar ôl adolygu'r ddogfen hon, gwelwyd mai mis Ionawr 2020 oedd y dyddiad adolygu. Yng ngoleuni pryderon a amlygyd eisoes ynghylch colli dyddiadau adolygu polisiâu, byddwn yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith, er mwyn sicrhau y caiff polisiâu eu hadolygu a'u diweddarau'n gyson, yn unol â'r dyddiadau a drefnwyd.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Cynllun gwella

Lleoliad: Uned Carreg Fawr - Ysbyty Bryn y Neuadd

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Medi 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn sicrhau bod polisiâu yn cael ei hadolygu'n gyson ac yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen.	Safonau Iechyd a Gofal Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	Cytunwyd ar gylch gorchwyl Grŵp Polisi'r Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar 27.08.2020. Mae'n cyfarfod bob mis. Mae'r holl ddogfennau sy'n dod tuag at y dyddiad adolygu yn cael eu nodi ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod gweithiwr proffesiynol yn cael ei ddyrannu i'w hadolygu, a gofynnir am ddiweddariadau misol am y broses ac unrhyw rwystrau y gall fod angen eu huwchgwyfeirio. Caiff polisiâu hefyd eu hystyried mewn perthynas â risg a'r effaith o'u tynnu oddi ar y rhyngwrwyd ac allan o gylchrediad os nad ydynt wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau erbyn y dyddiad adolygu. Yn ystod mis Mawrth a mis Medi 2020, nid oedd y	Hilary Owen / Francine Moore	Cwblhawyd

2	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y pedwar polisi y nodwyd bod angen eu hadolygu, eu hadolygu a'u diweddarau cyn gynted â phosibl.	Safonau Iechyd a Gofal Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	Grŵp Polisi yn weithredol oherwydd COVID-19; ers ailgydio yn y gwaith, mae'r dogfennau yn cael eu holrhain a'u hadolygu ac mae adroddiad misol yn cael ei lunio ar gyfer Cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Tîm Arwain Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.	Matthew Joyes / Bethan Wassell	30/11/2020
			Bydd grŵp gorchwyl a gorffen corfforaethol newydd yn cael ei sefydlu i ddatblygu adolygiad o'r 'polisi ar bolisiâu' presennol, datblygu cynllun ar gyfer system TG i olrhain polisiâu a sicrhau bod cynlluniau ar waith fel bod gweithiwr proffesiynol ym mhob maes yn cynnal a chadw polisiâu presennol.		
			Mae Polisi Uwchgyfeirio Gwelyau MHL0 0045 wedi cael ei adolygu ac wedi'i anfon er mwyn ymgynghori arno tan 12 Tachwedd 2020. Wedyn, caiff ei gyflwyno yng nghyfarfod Grŵp Polisi MHL0 ar 16 Rhagfyr 2020 i'w Gymeradwyo.	Wendy Lappin / Paul Hanna	17/12/2020
			Mae'r polisiâu Atal a Rheoli Heintiau wrthi'n cael eu hadolygu ac mae adnoddau ychwanegol wedi'u sicrhau er mwyn gwneud hyn, a byddant yn cael eu cymeradwyo gan y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau.	Amanda Miskell	30/11/2020

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Matthew Joyes - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrhau Ansawdd Dros Dro

Dyddiad: 27/10/2020